# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Hydref 2015

Amser: 09.01 - 11.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3267

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>Andrew RT Davies AC (yn lle Mohammad Asghar (Oscar) AC)<br>Alun Ffred Jones AC (yn lle Jocelyn Davies AC) |
| Tystion: | Jeremy Green, Lambert Smith Hampton Ltd<br>Lee Mogridge, Lambert Smith Hampton Ltd |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Alistair McQuaid (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Nick Tyldesley (Prisiwr Dosbarth) |

| | |
|---|---|
| | Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru)<br><br>Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru) |

## 1 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

1.1 Ystyriodd Aelodau y dystiolaeth a gafwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar. Dirprwyodd Andrew R T Davies ar ei ran.

2.3 Esgusododd Jocelyn Davies ei hun o dan Reol Sefydlog 18.8. Dirprwyodd Alun Ffred Jones ar ei rhan.

2.4 Mae'r datganiadau o ddiddordeb a wnaed yn y cyfarfod ar 12 Hydref yn berthnasol i'r cyfarfod hwn.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

### 3.1 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Llythyr gan James Price, Llywodraeth Cymru (12 Hydref 2015)

## 4 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Jeremy Green a Lee Mogridge o Lambert Smith Hampton Ltd fel rhan o'r ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio.

4.2 Cytunodd Jeremy Green a Lee Mogridge i anfon y wybodaeth a ganlyn at y Pwyllgor:

- Gwirio a chadarnhau'r dyddiadau y gwnaethant gyfarfod â swyddogion cynllunio o Gyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Sir Fynwy a chyflwyno unrhyw ohebiaeth berthnasol;
- Gwirio a gafodd yr holl ddiddordeb a ddangoswyd gan brynwyr posibl ei gyfleu i Fwrdd CBCA ac yn benodol y diddordeb a ddangoswyd gan Legat Owen, a phryd y gwnaed hynny;
- Manylion y cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r prynwr arfaethedig rhwng mis Chwefror 2011 a mis Mawrth 2012;
- Gwiriwch pryd y sefydlwyd perthynas gyda Mr Langley Davies, pwy o LSH oedd yn gweithredu ar ei ran ac ym mha swyddogaeth ac ar ba brosiectau eraill (lle y mae'n Gyfarwyddwr);
- Darparu e-byst a gohebiaeth arall gyda'r prynwr posibl pan awgrymodd y prynwr y byddai'n niweidiol i'w fuddiannau ac y gallai ragfarnu'r trafodion portffolio pe byddai'n cael ei orfodi i gynnal prisiad ffurfiol, ac
- Egluro pryd ddechreuodd LSH farchnata safle Trefynwy ar gyfer SWLD.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Oherwydd cyfyngiadau amser, nis cyrhaeddwyd yr eitem hon.